

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – CHWEFROR 2018

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR
CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

4. AD-DREFNU PLISMONA LLEOL

Ystyried ebost a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (copi'n amgaeëdig).

**5. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR
CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Penderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad (copi i ddilyn).

6. AROLWG RISG BLYNYDDOL

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor a'i gynllun arfaethedig ar gyfer 2018 / 2019 (copi'n amgaeëdig).

**7. ADRODDIAD TERFYNOL PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU
2018/19**

Cydnabod cyhoeddi Adroddiad Terfynol y panel ar gyfer 2018/19 – copi o'r tudalennau perthnasol ynghlwm.

(Bydd adroddiad llawn ar y goblygiadau i Gyngor Tref y Rhyl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth)

8. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. CYTUNDEB ARIANNU GYDA CHYNGOR SIR DDINBYCH

Derbyn argymhellion yr Is-bwyllgor Asesu Risg mewn perthynas â:

- Cytundeb arfaethedig gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer cyfraniad ariannol tuag at Barc Dŵr y Rhyl
- Awdurdodiad i'r Maer lofnodi'r ddogfen ar ran y Cyngor Tref ac awdurdodi rhyddhad y taliad cyntaf.

11. PENDERFYNU AR GAIS GAN GYMDEITHAS GYMUNEDOL Y RHYL AM GYFRANIAD ARIANNOL

Derbyn adroddiad Clerc y Dref a chadarnhau argymhellion yr Is-bwyllgor Asesu Risg (copi'n amgaeedig).

12. EITEM SEFYDLOG BOSIBL: ADRODDIADAU GWYBODAETH CYFRINACHOL GAN AELODAU CABINET CYNGOR SIR DDINBYCH

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

14. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.